

Y meini prawf asesu a'r cynllun marcio – Blwyddyn 2

Yn eich ail flwyddyn, disgwylwch y byddwch yn llunio syniadau drwy ddadansoddi cysyniadau ar lefel haniaethol, gan feistrolï sgiliau arbenigol a ffurfiog ymatebion i broblemau haniaethol a ddiffiniwyd yn glir; dadansoddi a chloriannu gwybodaeth; datblygu'r gallu i arddel cryn graffter ar draws ystod o swyddogaethau; a derbyn cyfrifoldeb am bennu canlyniadau fel unigolyn a/neu mewn grŵp.

Yr ail flwyddyn	Dosbarth Cyntaf Uchaf: 80-100%	Cyntaf: 70-80%	Ail Ddosbarth Uwch (2.1): 60- 69%	Ail Ddosbarth Is (2.2): 50-59%	Trydydd: 40-49%	Methu'n Agos: 30-39%	Methu'n Wael: 20-29%	Methu'n Wael lawn: 0-19%
FFYNONELLAU	Defnyddio ffynonellau'n gadarn iawn. Yn dangos cryn fenter wrth ddod o hyd i ddeunydd haniaethol.	Yn dangos menter. Yn cynnwys deunydd haniaethol/ cysyniadol anarferol a hynod gyflawn.	Yn darparu gwybodaeth sylweddol, gan gynnwys deunydd haniaethol/ cysyniadol	Yn darparu maint rhesymol o wybodaeth haniaethol/ gysyniadol gywir.	Yn darparu maint cyfyngedig o wybodaeth gysyniadol gyda pheth cywirdeb.	Yn ddiffygiol o safbwynt maint neu gywirdeb y deunydd cysyniadol	Ychydig iawn sy'n berthnasol; gwallau sylfaenol; bron dim ymdrech i ddod o hyd i ffynonellau deunydd.	Yn dangos nemor ddim gwybodaeth sylfaenol; ffynonellau annigonol
DADANSODDI	Dealltwriaeth eithriadol a chynnil iawn o'r deunydd a'i arwyddocâd cysyniadol.	Yn dangos dealltwriaeth arbennig ac unigol o ddeunydd haniaethol/ cysyniadol a'i arwyddocâd.	Dealltwriaeth glir o ddeunydd haniaethol/ cysyniadol a'i arwyddocâd.	Dealltwriaeth briodol o ddeunydd haniaethol/ cysyniadol.	Peth dealltwriaeth gyfyngedig o ddeunydd haniaethol/ cysyniadol.	Heb fawr o syniad beth mae deunydd haniaethol/ cysyniadau yn ei olygu	Gwallau sylfaenol wrth ddehongli'r cysyniadau neu'r materion.	Dim ymdrech i ddehongli na dadansoddi'r deunydd
DADLAU	Ymdriniwyd yn graff a soffistigedig iawn â'r deunydd damcaniaethol.	Yn dangos meddwl annibynnol, argyhoeddiad, cynildeb, a gafael gref ar y ddadl	Yn dadlau mewn modd trefnus, gyda datblygiad clir.	Yn cyflwyno braslun cyffredinol o ddadl briodol	Yn cyflwyno elfennau o ddadl briodol.	Ni chyflwynwyd nemor ddim dadl briodol.	Mae'r ddadl yn amherthnasol i'r cwestiwn neu'r deunydd	Ychydig o ymdeimlad o ddadl o gwbl
PERTHNASEDD	Canolbwyntio'n ardderchog ar y cwestiwn. Dealltwriaeth gynnil o oblygiadau'r pwnc.	Yn canolbwyntio'n glir a hyderus, ac yn dangos gafael sicr ar y materion	Yn dangos synnwyr cadarn o ba mor berthnasol yw'r deunydd i'r ddadl	Yn dangos synnwyr cadarn cyffredinol o berthnasedd, ond mae hynny weithiau'n gwanhau ac yn ddifeddwl	Yn dangos peth synnwyr cyfyngedig o berthnasedd i'r cwestiwn a'r ddadl.	Nid yw'n dangos synnwyr digonol o berthnasedd, er gwaethaf ambell i bwynt da.	Ymateb annigonol i'r cwestiwn. Strwythur amhriodol	Methwyd ag ymdrin â'r cwestiwn o gwbl. Dim synnwyr o strwythur.
ARDDULL YSGRIFENNU	Esiampl wych o ran gramadeg, sillafu ac iaith.	Yn dangos medr ieithyddol rhagorol a soffistigedig	Yn dangos cryn fedr, ond efallai fod gwallau sylweddol i'w cael	Yn dangos gallu ar y cyfan ond mae gwallau yn amharu ar y cyfathrebu	Yn llwyddo i gyfathrebu i raddau cyfyngedig er gwaethaf y gwallau niferus ac amrywiol	Prin y llwyddir i gyfathrebu oherwydd yr amrywiaeth eang o wallau	Methwyd â chyfathrebu'n sylfaenol mewn sawl rhan	Heb llwyddo i gyfathrebu'n sylfaenol hyd yn oed
CYFLWYNIAD	Defnyddiwyd confensiynau cyfeirnod yn berffaith ynghyd â chyflwyniad effeithiol iawn	Yn dangos cyfeirnod eithriadol o gyflawn a phriodol ynghyd â chyflwyniad effeithiol iawn	Yn dangos gafael drylwyr ar gonfensiynau cyfeirnod a chyflwyniad priodol	Yn dangos gafael gyffredinol ar egwyddorion cyfeirnod a chyflwyniad priodol	Yn dangos gofal a gallu cyfyngedig o ran cyfeirnod a chyflwyniad priodol.	Yn dangos gafael annigonol ar gonfensiynau cyfeirnod a chyflwyniad priodol	Defnyddiwyd egwyddorion cyfeirnod a chyflwyniad mewn modd amhriodol	Ymdrech dila i roi egwyddorion cyfeirnod a chyflwyniad ar waith

